RHODRI MAWR (bu farw 877), brenin Gwynedd, Powys, a Deheubarth

Enw: Rhodri Mawr
Dyddiad marw: 877
Priod: Angharad ferch Meurig
Plentyn: Cadell ap Rhodri Mawr
Plentyn: Anarawd ap Rhodri Mawr
Rhiant: Nest ferch Cadell ap Brochwel
Rhiant: Merfyn Frych ap Gwriad
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: brenin Gwynedd, Powys, a Deheubarth
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Thomas Jones Pierce

Mab Merfyn Frych a Nest, ferch Cadell ap Brochwel, Powys. Dilynodd ei dad fel brenin Gwynedd yn 844. Pan fu farw ei ewythr, Cyngen, yn 855, daeth yn frenin Powys, ac yn 872 pan fu farw Gwgon, brenin Seisyllwg (Geredigion ac Ystrad Tywi) a brawd ei wraig, Angharad, daeth brenhiniaeth y de o dan ei lywodraeth. Trwy hyn oll cafwyd undeb (nad oedd yn glos iawn, efallai) o dair o'r llywodraethau Cymreig pennaf, a serch i'r uno gael ei dorri pan fu Rhodri farw fe esgorodd yr uniad ysbeidiol hwn ar ddyheadau a ddylanwadodd ar agwedd cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o ddisgynyddion Rhodri fel rheolwyr Deheubarth neu Wynedd hyd at yr adeg y collodd Cymru ei hannibyniaeth.

Yn oes Rhodri bygythid Cymru yn drwm gan y Daniaid eithr y mae tystiolaethau iddo arwain ei bobl mewn dull beiddgar a chadarn yn ystod yr argyfwng.

Ymddengys iddo farw mewn brwydr yn erbyn y Saeson. Gadawodd chwe mab, a daeth dau ohonynt yn sylfaenwyr llinachau brenhinol yn y Canol Oesoedd - Anarawd, sylfaenydd teulu Aberffraw, a Chadell, tad Hywel Dda, a sylfaenodd deulu Dinefwr.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

Oxford Dictionary of National Biography

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Rhodri Mawr

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q470862

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu